Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Ger y Llan

St Davids Road
Treletert
Hwlffordd
Sir Benfro
SA62 5SL

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Ger y Llan

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Ger y Llan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Penfro |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 101 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 77 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 10 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 14.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 18.2% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 7.8% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |

| | |
|---|---|
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2018 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/01/2020 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 22/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn hafan hapus a gofalgar lle mae pawb yn teimlo’n ddiogel a’u bod yn cael eu trin yn deg. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda ac yn cyfarch ei gilydd ac oedolion yn gwrtais. Mae athrawon yn darparu profiadau cyffrous i ddisgyblion mewn amgylchedd hamddenol ond gweithgar. Mae hyn yn eu helpu i ddyheu at wireddu arwyddair yr ysgol, sef: ‘gwneud eu gorau glas’, ac i fwynhau dysgu.

Mae arweinwyr yn brofiadol ac yn arwain yr ysgol mewn modd tawel, caredig ac effeithiol. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol ohonyn nhw eu hunain, o staff ac o ddisgyblion. Maent yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau staff yn glir gyda’r nod o gefnogi disgyblion o bob cefndir a gallu i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae llywodraethwyr yn deall eu rolau’n glir ac yn eu cyflawni’n effeithiol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a gwella’r ysgol yn drefnus. Er eu bod yn help i arweinwyr ddeall beth sy’n effeithiol a beth sydd angen ei wella, nid ydynt yn ddigon miniog i’w helpu i wneud gwelliannau yn ddigon cyflym.

Mae athrawon yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn llwyddiannus, ac mae’r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cymhwyso’u medrau’n hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd ‘go iawn’. Yn gyffredinol, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n briodol ond nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ddysgu am daenlenni a bas data.

Mae’r rhan fwyaf o staff yn fodelau iaith cadarn ac maent yn annog disgyblion i siarad Cymraeg yn gyson. Maent yn asesu cynnydd disgyblion yn llwyddiannus ac, ar y cyfan, yn eu cefnogi i symud eu dysgu ymlaen yn briodol. Er hyn, nid yw athrawon bob amser yn annog disgyblion dosbarthiadau hŷn yr ysgol i ddyfalbarhau i wella’u gwaith ymhellach, yn hytrach na’i adael i gwblhau tasgau eraill.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a diddorol i ddisgyblion, sydd wedi'i seilio ar yr ardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Maent yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gynnig eu syniadau nhw am yr hyn maent am ei ddysgu ac, o ganlyniad, mae gan ddisgyblion berchnogaeth gadarn dros eu dysgu eu hunain.

Un o gryfderau’r ysgol yw’r cydweithio hynod effeithiol sy’n bodoli rhwng athrawon a chynorthwywyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion ac yn cyfoethogi’r ymdeimlad hyfryd o gymuned sy’n bodoli yn yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a gwella

A2 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu’r ystod lawn o fedrau digidol

A3 Sicrhau bod athrawon yn annog disgyblion dosbarthiadau hŷn yr ysgol i ddyfalbarhau yn eu gweithgareddau a chyflawni hyd eithaf eu gallu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae'r ysgol yn gymuned hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda. Maent yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn gwrtais ac yn trafod eu dysgu yn aeddfed. Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, a'u bod yn cael eu trin yn deg a gyda pharch. Maent yn deall pwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu presenoldeb dros amser.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu diddorol a chyffrous i ddisgyblion. Mae hyn yn eu hysbrydoli i ddyheu at wireddu arwyddair yr ysgol, sef: 'gwneud eu gorau glas' ac i arddangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Un o brif nodau'r ysgol yw darparu addysg gadarn, sy'n seiliedig ar werthoedd Cristnogol a Chymreig, gan fanteisio ar ddiwylliant cyfoethog yr ardal leol a Chymru. Mae'r cyswllt cadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r eglwys leol yn cyfoethogi hyn ac yn annog disgyblion i werthfawrogi cyfraniad yr eglwys a'r gymuned i'w bywydau bob dydd.

Mae arweinwyr yn brofiadol ac yn arwain yr ysgol mewn modd diddig a hynaws. Mae ganddynt ddisgwyliadau priodol ohonynt eu hunain, o staff ac o ddisgyblion. Maent yn dosbarthu rolau a chyfrifoldebau staff yn glir, sy'n eu cefnogi i ddiwallu anghenion disgyblion yn dda a sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Caiff arweinwyr eu cefnogi'n llwyddiannus gan lywodraethwyr sy'n deall eu rolau'n dda ac yn eu cyflawni'n effeithiol.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso a gwella'r ysgol yn drefnus, ac yn seiliedig ar weithgareddau addas sydd wedi eu mapio'n synhwyrol ar hyd y flwyddyn. Er bod y rhain yn gymorth i arweinwyr adnabod prif gryfderau'r ysgol, ac ychydig o agweddau sydd angen eu gwella, nid ydynt yn ddigon miniog i'w galluogi i wneud gwelliannau yn ddigon cyflym. Er hyn, mae arweinwyr yn cymryd camau cyson ac effeithiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu llythrennedd disgyblion, annog annibyniaeth yn eu dysgu, a diwallu eu hanghenion lles. Yn ddiweddar, er enghraifft, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella llafaredd Cymraeg disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar fedrau llafaredd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau'r ysgol yn ddarbodus i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu yn effeithiol a bod oedolion yn darparu cymorth buddiol i gefnogi lles disgyblion. Maent hefyd yn sicrhau bod athrawon a chynorthwywyr yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau hwythau drwy ymgymryd â gweithgareddau dysgu proffesiynol perthnasol yn rheolaidd.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm cytbwys a diddorol, sydd wedi'i seilio'n uniongyrchol ar yr ardal leol ac sy'n caniatáu i ddisgyblion adnabod eu hunain fel dinasyddion eu hardal, Cymru a'r byd ehangach. Mae arweinwyr wedi sefydlu dulliau effeithiol o ymgorffori syniadau disgyblion o'r hyn yr hoffent ei ddysgu. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion berchnogaeth gadarn dros eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn fodelau iaith effeithiol. Maent yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo a chodi statws y Gymraeg a Chymreictod ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Maent yn holi disgyblion yn fedrus er mwyn caffael eu syniadau, i adalw'u dysgu blaenorol ac i ymestyn eu gwybodaeth yn effeithiol. Maent yn asesu cynnydd disgyblion yn llwyddiannus, ac yn darparu adborth rheolaidd i'w galluogi i adnabod y cam nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn annog disgyblion dosbarthiadau hŷn yr ysgol i ddyfalbarhau digon ar eu tasgau fel eu bod yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r cydweithio hynod effeithiol sy'n bodoli rhwng athrawon a chynorthwywyr. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd disgyblion ac yn cyfoethogi'r ymdeimlad hyfryd o gymuned sy'n bodoli yn yr ysgol. Trwy baratoi gweithgareddau amrywiol a chyffrous iddynt, mae athrawon a chynorthwywyr yn sicrhau bod medrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu datblygu'n llawn. Trwy gyfrwng themâu diddorol a thasgau sy'n tanio'r dychymyg ac yn annog arbrofi ac ymchwilio, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos awch, annibyniaeth a brwdfrydedd naturiol at ddysgu. Mae staff yn cefnogi datblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn sensitif ac effeithiol, gan sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd cyson i drafod agweddau pwysig fel perthnasoedd, amrywiaeth, empathi a pharch. Mae hyn yn eu paratoi'n dda at fod yn ddinasyddion cyfrifol a charedig y dyfodol.

Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi'r rhan fwyaf i ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd, ac maent yn eu cymhwyso'n hyderus mewn sefyllfaoedd bywyd 'go iawn'. Ar y cyfan, mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Maent yn cymhwyso'r medrau hyn yn effeithiol i ymchwilio ac i gefnogi eu dysgu yn rheolaidd. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio pecynnau digidol i gefnogi eu gwaith trin data a modelu, er enghraifft trwy ddefnyddio taenlenni.

Mae staff yn annog disgyblion i ddylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol ac i arwain a chymryd cyfrifoldeb ar y gwahanol gynghorau. Er enghraifft, mae aelodau'r Criw Cymraeg yn gwobrwyo ymdrech eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn naturiol yn ystod y dydd. Mae hyn yn codi statws y Gymraeg ac yn annog bob un i siarad yr iaith yn rheolaidd. Caiff eraill gyfleoedd cyfoethog i gynllunio sut i wario cyllid a ddirprwywyd iddynt gan y Gymdeithas Ffrindiau mewn ffordd lle byddai'r holl ddisgyblion yn elwa, fel archebu offer penodol i'r ardal ddysgu allanol.

Mae arweinwyr yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion ag ADY, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, pan fo’n briodol. Mae’r Cydlynydd ADY, gyda chefnogaeth tîm o gynorthwywyr, yn creu proffiliau manwl sy’n cynnwys gwybodaeth bwysig am ddisgyblion a sut i hyrwyddo’u lles a’u cefnogi i wneud cynnydd yn erbyn eu targedau. Maent yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn yn fanwl ac yn addasu’r ddarpariaeth, lle bo angen, i sicrhau eu bod yn bodloni eu hanghenion lles a dysgu yn llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr amrywiol ffyrdd i gyfathrebu’n effeithiol â rhieni, gan gynnwys cyfryngau digidol, cylchlythyr rheolaidd a pholisi drws agored. Maent hefyd yn trefnu gweithdai yn achlysurol i’w cynorthwyo i helpu eu plant gyda gweithgareddau fel darllen, er enghraifft. Mae hyn yn adeiladu perthnasoedd buddiol â rhieni. Mae’r ysgol hefyd yn paratoi disgyblion yn gadarn ar gyfer eu cam dysgu nesaf drwy wneud cysylltiadau buddiol â’r cylch meithrin sydd ar dir yr ysgol, a’r ysgol uwchradd leol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trosglwyddo o un cam dysgu i’r nesaf yn lled esmwyth.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/08/2026